No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 5 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd E. Goodjohn a Dr. I.J. Johnson.

## C90 CYHOEDDIAD -

Dechreuodd y Dirprwy Arweinydd gan roi gwybod am rhai materion cadw tŷ a nododd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio, ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

## C91 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr L. Burnett a M.R. Wilson

## C92 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf a 18 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

## C93 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C94 ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Birch a oedd wedi mynychu'r cyfarfod, fod llyfrgelloedd wedi bod yn hynod weithgar dros y cyfnod rhwng 2023 a 2024 a'u bod yn ceisio ymgysylltu ag amrywiaeth mor eang o drigolion â phosibl ynghylch llythrennedd, digwyddiadau, gweithgareddau gydag ysgolion, eu bod yn cynnig amgylcheddau sy'n dda i bobl hŷn a dementia a'u bod yn fannau diogel a chynnes. Roedd sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu yn gadarnhaol ynghylch y

Gwasanaeth Llyfrgell, gan gynnwys sylwadau gan Gynghorydd nad oedd ar y Pwyllgor a fynychodd ac a ganmolodd y Gwasanaeth hefyd.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cadarnhaol cysylltiedig, a chytunodd gyda'r Cynghorydd Birch y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.  Roedd yn amlwg gweld yr effaith gadarnhaol yr oedd y Gwasanaethau Llyfrgell yn ei chael yng nghanol y gymuned.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau cadarnhaol o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C95 GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024.Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.  Cafwyd ymholiadau ynghylch cyllid a chymorth ychwanegol a oedd yn faterion parhaus a esblygodd dros amser.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, cyfeiriwyd y sylw canlynol at y Cabinet i'w ystyried, yn ogystal â swyddogion perthnasol Cyngor Bro Morgannwg:

- Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig bod Cyngor Bro Morgannwg yn adolygu a oedd y data yr oedd yn ei gasglu'n rhoi digon o fanylion am ba mor hawdd oedd hi i drigolion gael mynediad at y budd-daliadau, yr hawliau a'r cymorth ariannol yr oedd y Cyngor yn eu gweinyddu'n lleol.  Byddai hyn yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu Siarter Budd-daliadau Cymru (fel y manylir yn yr adroddiad) a'i nod o'i gwneud yn haws i bobl yng Nghymru hawlio'r Budd-daliadau Cymreig y mae ganddynt hawl iddynt.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod hynny'n awgrym defnyddiol a oedd yn ategu gwaith sydd eisoes ar y gweill i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hawliau y gallent gael mynediad atynt, e.e. credydau pensiwn.  Byddai'r Cyngor yn cadw golwg ar ddatblygiad Siarter Budd-daliadau Cymru a byddai'n parhau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Fforwm Pobl Hŷn i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol.

Tynnodd y Cynghorydd Perkes sylw at y ffaith bod £100k arall wedi'i gytuno tuag at Brydau Ysgol am Ddim, bod Cyngor ar Bopeth wedi derbyn £30k tuag at eu gwaith i helpu trigolion Bro Morgannwg a bod £50k wedi'i roi tuag at Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD argymhelliad y Pwyllgor i'r Cabinet yn cael ei gymeradwyo gan ei fod yn ategu gwaith sydd eisoes ar y gweill i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hawliau y gallent gael mynediad atynt, e.e. credydau pensiwn. Byddai'r Cyngor yn cadw golwg ar ddatblygiad Siarter Budd-daliadau Cymru a byddai'n parhau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Fforwm Pobl Hŷn i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C96 BRO MORGANNWG – TWRISTAETH A DIGWYDDIADAU (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024.Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu cyflwyniad a thrafodaeth dda yn y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwneud y mwyaf o gyfleoedd, a oedd cyfleoedd pellach yn ymwneud â llety gwyliau a lle Bro Morgannwg o fewn twristiaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad, gan gynnwys y cais am wybodaeth am nifer o faterion, a gwell dealltwriaeth ohonynt, gael ei gyfeirio at y Cabinet, ond eglurodd y Dirprwy Arweinydd eu bod yn faterion y byddai'r Swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn uniongyrchol arnynt am fwy o wybodaeth a thrafodaeth.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C97 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH CH4 2023/2024 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024.Diolchodd y Dirprwy Arweinydd

i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.

Yn y cyfarfod Craffu tynnwyd sylw at Atodiad D yr adroddiad lle bu gwall trawsosod yn y fersiwn wreiddiol lle cofnodwyd rhai o'r ffigurau ar gyfer absenoldeb salwch yn anghywir, ond cafodd hyn ei egluro gan y Swyddogion yn y cyfarfod a'i ddiwygio wedi hynny.

Roedd y cyflwyniad wedi'i atodi wedi rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd y flwyddyn mor gynnar â phosibl, cyn yr Asesiad Blynyddol manylach a fyddai'n cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet y dylid gwneud gwaith i:

- ehangu'r rhesymau dros absenoldeb mewn perthynas â'r blwch 'Arall'.
- rhoi mwy o eglurder ynghylch y ffigurau absenoldeb ar gyfer y categorïau grŵp oedran 16-25 a 65+ i'w hanfon at yr Aelodau.

Roedd dau Argymhelliad arall a oedd yn faterion penodol i'r Pwyllgor.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol yn cael eu nodi.

(2) BOD cydweithwyr yn Adnoddau Dynol yn ystyried ehangu'r rhesymau dros absenoldeb mewn perthynas â'r blwch 'Arall', os oedd modd gwneud hynny.

(3) BOD eglurder mewn perthynas â'r ffigurau absenoldeb ar gyfer y categorïau grŵp oedran 16-25 a 65+ wedi'i gynnwys yn Atodiad D diwygiedig yr adroddiad ac y byddai'n cael ei e-bostio gan y Gwasanaethau Democrataidd at yr Aelodau er gwybodaeth.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-3) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C98 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2023/24 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2024.

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, ynghyd â'r cyfeiriad dan Eitem 9 ar yr agenda, a chytunwyd ar hyn.

PENDERFYNWYD – BOD yr eitem yn cael ei hystyried yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater.
Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad ochr yn ochr ag eitem 14 ar agenda'r Cabinet.

**C99 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2023/24 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024.

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, ynghyd â'r cyfeiriad dan Eitem 8 ar yr agenda, a chytunwyd ar hyn.

PENDERFYNWYD – BOD yr eitem yn cael ei hystyried yn llawn ochr yn ochr ag Eitem 14 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu ystyried y cyfeiriad ochr yn ochr ag eitem 14 ar agenda'r Cabinet.

**C100 RISG CORFFORAETHOL: DIWEDDARIAD CHWARTER 4, COFRESTR RISG NEWYDD ARFAETHEDIG A PHOLISI RHEOLI RISG DIWYGIEDIG (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r drafodaeth a'r sylwadau cysylltiedig ar ôl i'r Pwyllgor ystyried tair agwedd ar reoli risgiau; roedd sefyllfa diwedd blwyddyn y gofrestr risgiau yn cynnig risgiau newydd ar gyfer y gofrestr ar gyfer 2024/25 a newidiadau i'r Strategaeth Rheoli Risgiau. Roedd y pynciau pellach a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys pynciau yn ymwneud â gofal cymdeithasol a Phrosiect Sero.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chymeradwyodd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol newydd arfaethedig a'r Polisi Rheoli Risgiau, gan wneud y sylwadau pellach canlynol:

- Dylid cynnwys caffael fel risg annibynnol.
- Dylid gofyn i'r Cabinet ailystyried statws Prosiect Sero ac a oedd yn cyfiawnhau statws trychinebus.
- Dylid asesu risg Gofal Cymdeithasol ynghylch a oedd un risg gyffredinol yn briodol.
- Dylid ystyried ymhellach y diffiniad o risg o ran achos ac effaith fel sy'n gysylltiedig â pharagraff 2.1 y Polisi newydd.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD –

(1) Y gofynnir i'r Swyddogion gwmpasu risg caffael fel risg annibynnol, gan adlewyrchu newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth ac y byddai'n cael ei hystyried gan y Bwrdd Mewnwelediad Strategol, y Tîm Arwain Strategol ac, os ystyrir hi'n ddigonol, byddai'n cael ei hadlewyrchu ar y Gofrestr Risgiau.

(2) BOD, ymhellach i ystyried y mater yn flaenorol, statws Prosiect Sero ac a oedd yn cyfiawnhau statws trychinebus yn cael ei adolygu gan y Bwrdd Prosiect Sero a'i lywio gan ddata'r Cyngor ar allyriadau carbon gan yr ystyriwyd bod y sgôr risg uchel yn ddigonol ar hyn o bryd.

(3) BOD dwy risg gofal cymdeithasol benodol newydd wedi'u cynnig i'w cynnwys ar y Gofrestr Risgiau, un yn ymwneud â'r galw a'r capasiti a'r llall â'r system TG gofal cymdeithasol newydd, a ystyriwyd yn briodol ar gyfer y risgiau gofal cymdeithasol penodol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y risgiau arfaethedig eraill ar y gofrestr risgiau ynghylch adnoddau ariannol a'r gweithlu hefyd yn adlewyrchu elfennau risg i'r Gyfarwyddiaeth.

(4) Y gofynnir i'r Swyddogion adolygu'r diffiniad o risg o ran achos ac effaith fel sy'n gysylltiedig â pharagraff 2.1 y Polisi newydd gyda rhywfaint o eglurder pellach a symleiddio geiriad.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-4) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C101 CH4 CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNIGION AR GYFER GWELLA (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod lle rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, o'r 52 o gamau gweithredu a oedd yn mynd rhagddynt yn Nraciwr Mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol fod 90% o'r camau gweithredu (47) wedi cael statws perfformiad Gwyrdd, bod 8% (4) wedi cael statws Oren a bod 2% (1) wedi cael statws Coch.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu nodi a bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddileu camau gweithredu wedi'u cwblhau o Draciwr Mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol gyda goruchwyliaeth barhaus dros y flwyddyn.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## C102 GRŴP CYNGHORI ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2024 a thrafodwyd llawer iawn o waith parhaus o amgylch yr arfordir, gan gynnwys plannu tafol y traeth ym Mro Morgannwg mewn lleoliadau penodol a phriodol yng Nghwm Mawr a Chwm Bach.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

## C103 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24 fel y sail ar gyfer ymgynghoriad.

Atodwyd adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft Bro Morgannwg i'r adroddiad yn Atodiad A yn dilyn proses gynhwysfawr i edrych ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn edrych ymlaen at weld mwy o wybodaeth yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion, gan nodi bod yr Aelodau wedi cynorthwyo gyda datblygu adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg. Byddai ymgyngoreion hefyd yn cynnwys pob Pwyllgor Craffu a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd â rôl statudol yn y broses.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at dudalen 85 yr Atodiad a oedd yn dangos bod defnydd taledig o ganolfannau hamdden wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o 406,353 i 741,551 a chanmolodd staff yn Hamdden am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24 yn cael ei gymeradwyo fel y sail ar gyfer ymgynghoriad fel y disgrifir yn yr adroddiad hwn a Phenderfyniad (2).

(2) BOD adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24 yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (23 Medi 2024)

a'r holl Bwyllgorau Craffu (10 - 19 Medi 2024) iddynt ei ystyried fel rhan o raglen ymgynghori, gydag unrhyw safbwyntiau ac argymhellion ar gyfer newidiadau i'r dyfarniadau neu'r meysydd arfaethedig ar gyfer ffocws yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet (10 Hydref 2024) i'w hystyried cyn i adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Terfynol Bro Morgannwg gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet ac wedi hynny ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar ganfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn goruchwylio adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24 a bod eu safbwyntiau'n llywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

**C104 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 4 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 Cyngor Bro Morgannwg fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi cynnig yn flaenorol y dylid ystyried yr eitem yn llawn ochr yn ochr ag Eitemau 8 a 9 ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r un mater, a chytunwyd ar hyn.

Roedd y Pwyllgorau Craffu Dysgu a Diwylliant ac Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol wedi ystyried a chymeradwyo'r adroddiad a diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r ddau Bwyllgor am y cyfeiriadau a'r sylwadau cysylltiedig a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y ddau gyfarfod. Nodwyd Argymhellion yr holl Bwyllgorau Craffu ym mharagraffau 2.18 i 2.22 yr adroddiad.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD canlyniadau perfformiad chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu nodi.

(2) BOD safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu mewn perthynas â pherfformiad chwarter 4 yn cael eu nodi a bod y camau adfer a nodwyd yn cael eu cymeradwyo fel y sail i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni gofynion perfformiad fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn amlhau i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

**C105 CYNLLUN RHEOLI CARBON (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon 2024-2030. Roedd y Cynllun diweddaraf yn myfyrio ar yr heriau yn wynebu'r Cyngor yng nghanol Degawd Gweithredu y Cenhedloedd Unedig. Cafodd cyhoeddi'r Cynllun ei yrru gan ddeddfwriaeth. Gosododd Cytundeb Paris 2017 dargedau i gyfyngu codiadau tymheredd hirdymor i 1.5 gradd canradd, ond cyrhaeddwyd y trothwy hwnnw gyda thymheredd byd-eang wedi codi am dri mis ar ddeg yn olynol. Roedd y Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â rhan y Cyngor wrth weithredu, a oedd yn cynnwys y Pum Ffordd o Weithio, ac yn cael ei chydlynu gan y tîm Datgarboneiddio ac Ynni o fewn yr Adran Eiddo gyda mewnbwn gan bob rhan o'r Sefydliad. Ymdriniwyd â gweithgareddau ag ôl troed carbon, gan gynnwys adeiladau, goleuadau stryd, fflyd, teithio busnes a chymudo staff, gwastraff, cadwyn gyflenwi, ynni adnewyddadwy a defnydd tir.

Roedd gan y Cyngor yr uchelgais cywir o ran ymdrechu i gyflawni gweithgareddau dim carbon erbyn 2030, fodd bynnag, amcangyfrifwyd y byddai'r gost o gyflawni dim carbon o fewn adeiladau yn unig a oedd yn cynrychioli 11.3% o ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor yn costio £50m. Roedd cadwyni cyflenwi yn cynrychioli 78.5% o ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor, fodd bynnag, nid oedd cyflenwyr yn rhwym i'r un targedau sero net 2030 ag yr oedd y Cyngor, ond byddai'r Cyngor yn parhau i wthio nodau a chamau gweithredu y gellir eu cyflawni fel y nodir yn y Cynllun Rheoli Carbon a byddai'n adolygu ac yn datblygu polisïau newydd i helpu i leihau'r ôl troed carbon o fewn yr adnoddau a oedd ar gael.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y cynnydd a wnaed hyd yma gyda chamau gweithredu o ddwy fersiwn gyntaf y Cynllun Rheoli Carbon yn cael ei nodi.

(2) BOD, yn amodol ar Benderfyniad (3), cytundeb yn cael ei wneud i fabwysiadu trydydd Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor (2024-2030) a’i fabwysiadu fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad a’r atodiadau cysylltiedig.

(3) BOD yr adroddiad a’r atodiadau yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol i'w hystyried, gydag unrhyw sylwadau yn cael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried yn derfynol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o gynnydd o ran rheoli carbon ar draws y Cyngor a'r adrodd blynyddol i Lywodraeth Cymru.

(2) Sicrhau bod y cynllun rheoli carbon newydd gyda'i dargedau arfaethedig yn cael ei ystyried a'i fabwysiadu a bod y gwaith o gyflawni camau allweddol yn cael ei ymgorffori a’i symud ymlaen wedi hynny.

(3) Galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried y Cynllun a chyfeirio unrhyw sylwadau at y Cabinet i'w hystyried.

**C106 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a’i ddiben oedd rhoi gwybod i’r Cabinet am ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 11 Gorffennaf 2024. Roedd nifer o'r ceisiadau yn cwmpasu cyfnod gwyliau'r haf i ysgolion a'r angen i gwblhau gwaith yn ystod gwyliau'r haf, ynghyd â materion eraill fel uwchraddio tai i waith ardaloedd cymunedol mewnol, to newydd i adeilad Dechrau'n Deg ar Skomer Road a gwaith ar lwybrau bordiau parc gwledig.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD y defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

**C107 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2024 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2024/25 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024 a gofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y rhaglen a gymeradwywyd yn dod i gyfanswm o £139.927M a oedd yn cynnwys llithriad cyllideb o 2023/2024 i gyllideb 2024/2025 a oedd yn £15.013M. Pe bai'r holl geisiadau o fewn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, rhagamcanwyd y byddai'r alldro a ragwelir diwygiedig yn £134.989M gyda gwariant hyd at ddiwedd Mehefin yn £8.805M.

Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn manylu ar gynnydd ariannol ar y Rhaglen Gyfalaf ar 30 Mehefin 2024. Roedd Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth hyd at 30 Mehefin 2024, y symudiadau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys llithriadau ac ychwanegiadau ac yn dangos y daith i'r alldro a ragwelir diwygiedig ar gyfer 2024/2025.

Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf i nodi gorwariant a gofynnwyd am lithriad o £4.902M yng ngwaith monitro'r chwarter cyntaf.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/2025 yn cael ei nodi.

(2) BOD y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

(3) BOD y defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn Atodiad 1 yn cael ei nodi.

(4) BOD y newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2024/25 a rhai'r blynyddoedd i ddod yn cael eu cymeradwyo:

- Band B Ysgol y Deri – Ailbroffilio cyllideb y cynllun hwn fel y nodir ym mharagraff 2.15.
- Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant – Sain Tathan – Dileu cyllideb £450k y cynllun hwn o Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Ysgol y Deri – Cynnwys cynllun newydd gyda chyllideb o £10k yn Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i'w hariannu o gyllideb refeniw'r ysgol.
- Ysgol Gynradd Parc Jenner - Uno'r cynlluniau a restrir ym mharagraff 2.11 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Parc Jenner – Adnewyddu'r To ac Amddiffyn Goleuadau ar Raglen Gyfalaf 2024/25 i greu un cynllun o'r enw Ysgol Gynradd Parc Jenner – Adnewyddu To gyda chyllideb o £355k.
- Wal Ffin Ysgol Gynradd Fictoria – Cario ymlaen £14k o gyllideb y cynllun i Raglen Gyfalaf 2025/26.

- Gwella Gwasanaethau Dydd Tŷ Rondel – Trosglwyddo £5k o gyllideb y cynllun hwn i'r cynllun Drysau Tân Cartrefi Preswyl yn Rhaglen Gyfalaf 2024/25.
- Parkwood – Trosi Cyswllt Un Fro – Cais i gynnwys y cynllun newydd hwn gyda chyllideb o £400k yn Rhaglen Gyfalaf 2024/25, i'w hariannu gan £200k o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, cyfraniad Parkwood o £100k a £100k o'r Gronfa Ail-lunio Risg a Buddsoddi Wrth Gefn.
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Trosglwyddo £300k o gyllideb y cynllun hwn i'r cynllun newydd ar gyfer Grant Addasiadau Dewisol fel y nodir ym mharagraff 2.14 yr adroddiad.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.

(3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Brys.

(4) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y blynyddoedd ariannol presennol a rhai'r dyfodol.

**C108 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 1 ar gyfer 2024/25.

Roedd pwysau sylweddol ar draws ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion a digartref, gan ddeillio'n bennaf o bwysau parhaus o 2023/24 fel pwysau tâl a chwyddiant, achosion sylweddol o gymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion a chynnydd mewn digartrefedd er bod pwysau digartrefedd wedi cael eu lliniaru yn ystod y flwyddyn gan fwy o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ac felly byddai swm llai'n cael ei dynnu i lawr o'r gronfa digartrefedd wrth gefn.

Byddai oedi wrth weithredu arbedion hefyd yn effeithio ar alldro 2024/25 ar draws gwasanaethau, yn rhannol oherwydd yr amser sydd ei angen i weithredu arbedion yn effeithiol ar raddfa, ond roedd hyn hefyd yn adlewyrchu capasiti o fewn timau.

Rhagamcanwyd ar hyn o bryd y byddai'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn oddeutu £13.629M gyda £4.309M yn ymwneud ag ysgolion, ac roedd gan y Cyngor ffrydiau gwaith amrywiol yn mynd rhagddynt i liniaru'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a lleihau gorwariant yn ystod y flwyddyn. Byddai'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn lleihau'n sylweddol swm y cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael erbyn 31 Mawrth 2025 gyda'r sefyllfa a ragwelir wedi'i nodi yn nhabl 3 yr adroddiad gyda chronfeydd wrth gefn yn gostwng i £50.645M.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod yn cael ei nodi.

(2) BOD y trosglwyddiadau y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2024/25.

(2) Diweddaru'r gyllideb wreiddiol ar gyfer 2024/25 ar gyfer ceisiadau am drosglwyddiad.

**C109 CHWARTER UN MONITRO RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cabinet Adroddiad Monitro Rheoli Trysorlys 2024/25 Chwarter 1 a oedd yn manylu mân newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet ac yn diweddaru'r dangosyddion darbodus i adlewyrchu'r newidiadau hynny.

Roedd y newidiadau hynny o fewn y terfynau a osodwyd yn Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli Trysorlys flynyddol y Cyngor. Lle'n bosibl, roedd y Cyngor wedi bod yn hunanariannu gwariant cyfalaf newydd a dyled a oedd yn aeddfedu, fodd bynnag, roedd balansau a chronfeydd wrth gefn a oedd ar gael bellach wedi'u gwagio ac roedd y Cyngor wedi dechrau benthyca yn allanol gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus dros gyfnodau byrrach o 5 mlynedd oherwydd costau benthyca uchel cyfredol.

Yn y cyfnod dan sylw roedd y Cyngor wedi benthyg £5M i ariannu'r Cyfrif Refeniw Tai gan fod cyfradd prosiect ar gael a oedd yn 60 pwynt sylfaen yn is na'r gyfradd safonol. Ar 30 Mehefin 2024, swm benthyca allanol y Cyngor oedd £148.058M, i fyny o £143.312M ar 31 Mawrth 2024, ond roedd ymhell o fewn y terfyn awdurdodedig a'r dangosyddion ffin gweithredol a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Cost benthyca ar gyfer chwarter cyntaf 2024/25 oedd 4.84%.

Yn ystod chwarter cyntaf 2024/25 cynyddodd portffolio buddsoddi'r Cyngor o £34.195M ar 31 Mawrth 2024 i £36.32M ar 30 Mehefin 2024 gyda'r gyfradd enillion gyfartalog ar gyfer pob buddsoddiad yn 5.31% dros Chwarter Un.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, yn dilyn trafodaethau blaenorol, y byddai mwy o hyfforddiant Rheoli Trysorlys yn cael ei gynnig i'r Aelodau.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Adroddiad Monitro Chwarter 1 ar gyfer Rheoli Trysorlys 2024/25 yn cael ei nodi.

(2) BOD Adroddiad Monitro Chwarter 1 ar gyfer Rheoli Trysorlys 2024/25 yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y sefyllfa fonitro ar gyfer Rheoli Trysorlys ar 30 Mehefin 2024.

(2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y sefyllfa mewn perthynas â Rheoli Trysorlys.

**C110 GWAREDU TIR ADDYSG YCHWANEGOL Y TU ÔL I YSGOL GYNRADD ILLTUD SANT, LLANILLTUD FAWR (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i waredu darn ychwanegol o dir segur yng nghefn Ysgol Gynradd Illtud Sant, Llanilltud Fawr.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD datganiad yn cael ei wneud nad oes angen y tir segur ychwanegol yng nghefn Ysgol Gynradd Illtud Sant, Llanilltud Fawr ar y Cyngor.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 i waredu'r tir fel y dangosir yn goch ar y cynllun yn Atodiad A drwy'r dulliau mwyaf priodol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, yn unol â thelerau ac amodau i'w cytuno.

(3) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r ddogfennaeth gyfreithiol briodol i waredu'r safle ar yr adeg briodol.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Datgan nad oedd angen y safle gan nad oedd angen y tir at ddibenion addysg mwyach.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn cael y gydnabyddiaeth orau am y tir yn unol â'i rwymedigaethau statudol ac ymddiriedol.

(3) Ffurfioli'n gyfreithiol waredu'r tir er mwyn cael derbyniad cyfalaf a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at ariannu Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor a sicrhau cydymffurfiaeth â statud.

**C111 NEWID PWRPAS YR HEN GANOLFAN ALWADAU C1V YN GYFLEOEDD HAMDDEN NEWYDD MEWN PARTNERIAETH Â LEGACY LEISURE (HCL) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ail-bwrpasu ardal hen ganolfan alwadau Cyswllt Un Fro ger Canolfan Hamdden y Barri yn ofod hamdden newydd, mewn partneriaeth â darparwyr Rheoli Hamdden y Cyngor, Legacy Leisure, ac ymrwymo i drefniant les byrdymor gyda nhw a fyddai'n gwella cyfleoedd gweithgarwch corfforol ymhellach.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD ail-bwrpasu hen ganolfan alwadau Cyswllt Un Fro yn ofod hamdden y gellir ei ddefnyddio, mewn partneriaeth â Legacy Leisure, er budd trigolion ac ymwelwyr fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(2) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles, yn cael ei awdurdodi i drafod telerau o ran Legacy Leisure yn lesio'n atodol hen ardal Cyswllt Un Fro hyd ddiwedd mis Rhagfyr 2029; i gytuno ar delerau ac amodau i ganiatáu mynediad cynnar dan drwydded i'r gwaith gofynnol symud ymlaen cyn cwblhau les atodol; i amrywio, yn ôl yr angen, y Cytundeb Rheoli Hamdden rhwng y Cyngor a Legacy Leisure i adlewyrchu'r gofod ychwanegol sy'n cael ei gwmpasu o fewn y cytundeb presennol.

(3) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles, yn cael ei awdurdodi i drafod gyda Legacy Leisure unrhyw ganiatadau, cytundebau mynediad cynnar pellach ac ati os oes angen.

(4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu'r cytundebau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r trefniant.

(5) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys, fel y nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei gytuno ar gyfer Penderfyniadau (1-4).

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gwneud defnydd cadarnhaol o ardal segur drwy gynnig mwy o gyfleoedd gweithgarwch corfforol yng Nghanolfan Hamdden y Barri a dangos unwaith eto y berthynas waith gadarnhaol sydd gan y Cyngor gyda'i bartner rheoli Canolfan Hamdden 'nid-er-elw', Legacy Leisure.

(2) Galluogi cydymffurfiaeth â thelerau'r grant yr oedd Legacy Leisure wedi'i sicrhau gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn modd amserol.

(3) Galluogi mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau posibl i gwblhau'r prosiect cyffrous yn gyflym ac yn effeithlon o ystyried y terfynau amser tynn sy'n gysylltiedig â thelerau grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

(4) Sicrhau cydymffurfiaeth â phob polisi'r Cyngor.

(5) Sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau'r grant yr oedd Legacy Leisure wedi'i sicrhau o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chaniatáu iddynt gael mynediad cynnar i'r gofod dan drwydded i'r gwaith gofynnol symud ymlaen cyn cwblhau'r les.